Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Elfed

**Mill Lane**
**Bwcle**
**Sir y Fflint**
**CH7 3HQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Elfed

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Elfed |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 912 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 911 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 20.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/04/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/02/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/04/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Elfed yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng cyrhaeddiad academaidd a chefnogi lles ei disgyblion a'i staff. Mae gwerthoedd craidd yr ysgol, sef 'gonestrwydd, uniondeb, parch, dyheadau uchel a hunan-gred' yn ganolog i'r hyn y mae'n ei wneud. Mae gan lawer o ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn, ac adlewyrchir hyn yn eu hymddygiad da, eu cwrteisi a'r balchder y maent yn ei arddangos yn yr ysgol. Mae gan lawer ohonynt agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi, gan ddangos aeddfedrwydd wrth drafod materion sensitif. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael iddynt. Mae'r cymorth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae presenoldeb yn gwella, ar y cyfan, ond mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn destun pryder.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob myfyriwr sy'n gadael Ysgol Uwchradd Elfed yn barod i ffynnu yn y gymuned ehangach. Mae wedi datblygu a rhannu'r weledigaeth yn dda ar y cyd â staff, disgyblion a rhieni. Mae staff a llywodraethwyr yn angerddol am yr ysgol ac yn glir yn eu bwriad i ddarparu addysg dda ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso'u cynnydd. Fodd bynnag, yn eu gwerthusiadau a'u cynllunio ar gyfer gwelliant, maent yn canolbwyntio'n rhy agos ar faterion gweithredol a ddim yn ddigon manwl gywir ar yr effaith a gaiff addysgu ar ddysgu'r disgyblion.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n addas ar gyfer dysgu ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n adeiladu'n dda ar ei gilydd. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, yn rhoi esboniadau clir, yn modelu dysgu'n dda ac yn cynorthwyo disgyblion yn fuddiol fel bod y mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn, o leiaf. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad ydynt yn herio disgyblion yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau neu oherwydd eu bod yn strwythuro'u gwersi'n ormodol ac yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae cwricwlwm yr ysgol yn gynhwysol ac yn darparu ystod briodol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ganolfan adnoddau arbenigol, 'Hafan', yn amgylchedd dysgu diogel, digynnwrf a chefnogol lle mae llawer o'i disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau llythrennedd a rhifedd, ond mae llai o gyfleoedd iddynt ddatblygu medrau bywyd pwysig eraill.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Elfed yn gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm mewn ysgrifennu, siarad a gwrando. Maent yn arddangos medrau corfforol cryf mewn gwersi Addysg Gorfforol hefyd. Nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd yn eu medrau darllen, rhifedd, digidol a Chymraeg ar draws y cwricwlwm oherwydd nad yw'r cyfleoedd iddynt wneud hynny wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid yw arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon gofalus i fod yn sicr fod yr holl ddisgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau.

## Argymhellion

A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso a gwella fel eu bod yn canolbwyntio’n graff ar addysgu, a’i effaith ar ddysgu’r disgyblion

A2 Gwella’r addysgu fel bod pob un o’r disgyblion yn gwneud y cynnydd y maent yn abl i’w wneud

A3 Cryfhau prosesau i fonitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

A4 Cryfhau datblygiad graddol medrau darllen, rhifedd, digidol a Chymraeg ar draws y cwricwlwm

A5 Gwella presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Elfed yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu, a lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf, er nad yw lleiafrif ohonynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent, yn bennaf oherwydd diffygion mewn addysgu. Mewn lleiafrif o achosion, tra bo disgyblion yn dysgu sut i ateb cwestiynau arholiad, nid ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth cysyniadol yn ddigon da. At ei gilydd, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas tuag at eu targedau. Mae llawer o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol, ‘Hafan’, yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o’u gwahanol fannau cychwyn. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau gan eu hathro, ac yn aml yn defnyddio’r Gymraeg yn ddigymell ac yn gywir yn eu hymatebion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando’n dda ar eu hathrawon a’u cyfoedion. Maent yn rhoi ymatebion byr ar lafar i gwestiynau athrawon. Mae ychydig o ddisgyblion yn hynod huawdl ac yn esbonio’u meddwl yn glir gan ddefnyddio geirfa eang a soffistigedig. Nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hymatebion yn ddigon da. Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio’n dda, wrth drafod technegau barddol yn ‘The Crowd Gathers’, er enghraifft. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa, gan gynnwys terminoleg sy’n benodol i bwnc. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn amharod i gymryd rhan mewn gwaith pâr a gwaith grŵp. Nid

yw ychydig iawn ohonynt yn gwrando'n ddigon da ar gyfarwyddiadau ac esboniadau eu hathrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn dod o hyd i eiriau allweddol ac yn dethol gwybodaeth o amrywiaeth o destunau addas. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud defnydd da o'u canfyddiadau, er enghraifft wrth ddyfynnu ymadroddion sy'n datblygu agweddau ar gymeriad neu gyd-destun yn y nofel 'Heroes'. Mae mwyafrif y disgyblion mwy abl yn dangos y gallu i lunio casgliadau, er enghraifft wrth ddadansoddi ffynonellau am droseddu ym Mhrydain yn Oes Fictoria. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn darllen ar goedd gydag eglurder, rhugldeb a mynegiant. At ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen uwch ar draws y cwricwlwm. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion bob amser yn dangos dealltwriaeth o destunau cyfarwyddol sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda yn estynedig ar draws y cwricwlwm. Maent yn cyfleu eu syniadau'n glir ac yn trefnu eu hysgrifennu'n briodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn ysgrifennu'n ddestlus ac yn ddarllenadwy. Mae ganddynt amgyffrediad cadarn o derminoleg pwnc ac yn ei defnyddio'n gywir. Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig sy'n addas ar gyfer y pwnc ac yn dechnegol gywir, er enghraifft wrth drafod ystyriaethau moesegol ynghylch ffermio ieir mewn cewyll batri mewn gwyddoniaeth. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn modd manwl a chydlynus, gan esbonio'n glir beth yw bwriad ysgrifennwr a'u gwerthfawrogiad eu hunain o arddull. Fodd bynnag, yn aml, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar gymorth athrawon wrth ddatblygu eu hysgrifennu, sy'n cyfyngu ar eu medrau ysgrifennu'n annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol rheolaidd.

Yn gyffredinol, yn eu gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Gallant ddod o hyd i dermau allweddol mewn testunau syml ac adnabod camgymeriadau, sy'n eu helpu i adeiladu eu geirfa a datblygu eu sillafu. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu â chywirdeb rhesymol gyda chymorth gan eu hathrawon. Mae ychydig ohonynt yn datblygu eu hamgyffrediad o'r iaith yn gryf ac yn defnyddio idiomau Cymraeg yn briodol wrth fynegi eu barn. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn adeiladu ar y medrau hyn i ddarllen testunau hirach yn Gymraeg er dealltwriaeth. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth a'u medrau i ysgrifennu disgrifiadau estynedig ohonyn nhw eu hunain. O ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn ddigon aml.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd sylfaenol cadarn a gallant gymhwyso'r rhain mewn tasgau sy'n briodol o heriol mewn gwersi mathemateg. Gall y mwyafrif ohonynt gyfrifo'n dda gan ddefnyddio dulliau cyfrif yn y pen a dulliau cyfrif ysgrifenedig. Gall llawer o ddisgyblion lunio a phlotio graffiau llinell yn gywir neu bennu llinell sy'n gweddu orau ar graff gwasgariad, er enghraifft mewn gwersi bioleg wrth ystyried effaith crynodiad halen ar gyfradd osmosis.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda pan roddir cyfle iddynt wneud hynny. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu ffeithluniau, tudalennau gwe a fideos fel adnoddau adolygu mewn technoleg ddigidol. Maent yn defnyddio data tabledig yn Excel i greu siartiau bar corfforedig syml ac wedyn yn dadansoddi'r data yn bwrpasol. Yn eu gwersi technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn trin delweddau'n hyderus oddi ar y rhyngrwyd mewn meddalwedd dylunio 2D i greu templedi yn barod

ar gyfer toriadau laser wrth greu gemwaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl cyfrifiadurol yn briodol wrth gynllunio dilyniant goleuo ar gyfer y cynhyrchiad ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu medrau digidol uwch yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda, er enghraifft wrth ystyried goblygiadau cymdeithasol a chyfreithiol anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i resymu a meddwl yn strategol, er enghraifft wrth ddadansoddi'r ffyrdd mwyaf effeithiol i ennill pwyntiau mewn badminton. Yn gyffredinol, ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ac ymestyn eu meddwl.

Pan roddir cyfle iddynt, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fuddiol, er enghraifft wrth arbrofi â'r iwcalili, a dysgu ei chwarae, mewn cerddoriaeth. Mewn celf, mae llawer o ddisgyblion yn creu collages swrrealaidd o'u hwynebau eu hunain, gan efelychu gwaith yr arlunydd o'r Almaen, Annegret Soltau. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn addas hefyd wrth gyflwyno yn Her Cacen De Tunnock a Chlwb Cacen Nadolig Elfed Extra.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, fel eu medrau cydsymud wrth ddysgu sut i neidio dros glwydi mewn athletau. Maent yn dangos lefelau da o ffitrwydd corfforol a gallant gynnal ymdrech am gyfnodau amser estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cydlynu da rhwng y llaw a'r llygad yn eu gwersi addysg gorfforol, er enghraifft wrth berfformio amrywiaeth o siotiau mewn badminton.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae disgyblion yn falch o fod yn rhan o Ysgol Uwchradd Elfed lle ceir ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwerthoedd craidd yr ysgol yn dda, sef parch, gonestrwydd, uniondeb, dyheadau uchel a hunan-gred mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Dywed mwyafrif y disgyblion eu bod yn mwynhau'r ysgol. Mae llawer ohonynt yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn glir am oedolyn ymddiriedus y gallant droi ato / ati os bydd angen cymorth arnynt.

Mae disgyblion yn groesawgar tuag at ymwelwyr ac yn cyfathrebu'n hyderus ac yn gwrtais â staff a chyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, maent yn brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym i weithio. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol mewn modd gwaraidd a threfnus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymgymryd yn addas â'u gwaith, maent yn tarfu ar ddisgyblion eraill ac yn siarad ar draws yr athro mewn gwersi.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw a gefnogir trwy ddarparu ffrwythau am ddim i bawb. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol o'r amrywiaeth gyfoethog a gynigir, gan gynnwys clybiau codio, gwyddbwyll ac osgoi'r bêl.

Pan roddir cyfle iddynt, mae disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn dda, er enghraifft mewn rolau fel llysgenhadon gwrthfwlio a chwaraeon, fel myfyrwyr hŷn, ac aelodau o'r cyngor ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac wedi cefnogi gwaith elusennol, gan gynnwys sefydlu banc bwyd. Caiff aelodau o'r cyngor ysgol eu

cynnwys mewn recriwtio staff, gwella gofodau awyr agored, newid bwydlen yr ysgol, ac ymestyn y cwricwlwm i ymgorffori gwersi lles ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella ers pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhell islaw presenoldeb eu cyfoedion.

Dywed bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu 'Hafan' eu bod yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn iach yno. Maent yn mwynhau bod gyda'u ffrindiau ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â'r athrawon a'r staff cymorth. Gall pob un ohonynt fynegi'n glir at bwy maent yn troi am gymorth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch tuag at eu cyfoedion a staff ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi, gan ddyfalbarhau mewn tasgau a gweithgareddau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn Ysgol Uwchradd Elfed yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf. Yn gyffredinol, maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bwnc gref, ac maent yn atgyfnerthu terminoleg sy'n benodol i bwnc yn fuddiol. Mae llawer ohonynt wedi sefydlu arferion buddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i fwrw ymlaen â'u gwaith ac ymgysylltu â'u dysgu.

Mewn ychydig o achosion, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n arbennig o ddifyr. Mae'r athrawon hyn yn darparu lefelau uchel o her ac yn modelu eu disgwyliadau i ddisgyblion yn dda. Maent yn holi disgyblion yn fedrus i brocio a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a'u helpu i wella'u hymatebion ar lafar. Maent yn cynllunio'n ofalus hefyd i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu a meddwl yn dda.

Ym mwyafrif yr achosion, mae addysgu yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cadarn, o leiaf, yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ystyriol i ddarparu adnoddau a gweithgareddau difyr sy'n adeiladu'n dda ar ei gilydd. Maent yn cynnig esboniadau clir, yn modelu dysgu yn fuddiol, ac mae ganddynt ddisgwyliadau addas o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Yn ychwanegol, maent yn defnyddio ystod o strategaethau gwerth chweil i fonitro cynnydd disgyblion, ac yn addasu eu haddysgu i ymateb i hynny.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mae hyn yn aml oherwydd bod athrawon yn rhoi gormod o gymorth iddynt, yn sgaffaldio tasgau yn ormodol neu'n cyflwyno am gyfnod rhy hir. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i gymhwyso a datblygu eu dysgu a'u medrau yn annibynnol. Nid oes gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, ac yn aml, maent yn rhoi llwybrau byr i gwblhau tasgau yn hytrach na'u helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau pwysig. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn ymyrryd yn ddigon cyflym pan fydd disgyblion yn aflonyddgar ac wedi ymddieithrio.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi yn briodol i wirio dealltwriaeth disgyblion a gwirio eu bod yn galw ffeithiau pwysig i gof. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni ddefnyddir holi'n ddigon da i ddyfnhau dysgu disgyblion neu ddatblygu eu medrau meddwl.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn dda ac yn rhoi adborth llafar clir a buddiol i ddisgyblion ynglŷn â sut gallant wella'u gwaith. Maent hefyd yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol sy'n nodi'n glir beth mae disgyblion wedi'i wneud yn dda a sut gallent wella. Maent hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w harweiniad. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn gor-ganmol ymatebion rhy syml neu nid ydynt yn nodi camdybiaethau yn ddigon manwl gywir. Nid yw gweithgareddau asesu cyfoedion a hunanasesu yn cael eu defnyddio'n effeithiol bob amser, ac o bryd i'w gilydd, maent yn ddi-fudd a llafurus.

Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn, er enghraifft trwy nosweithiau rhieni, adroddiadau interim ac adroddiadau llawn. Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth gryno am gyflawniad a chynnydd eu plentyn, ynghyd â chyngor buddiol ar sut i wella.

Mae gan Ysgol Uwchradd Elfed gwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn astudio ystod briodol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol, gan gynnwys lletygarwch ac arlwyo, peirianneg a chwaraeon. Cefnogir hyn ymhellach gan ystod werthfawr o gymwysterau ychwanegol, fel paratoi ar gyfer byd gwaith, cymorth cyntaf mewn argyfwng, ac iechyd a diogelwch yn y gwaith.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd buddiol i archwilio ac astudio testunau mwy heriol, fel treftadaeth lenyddol Cymru a microbioleg, trwy ddosbarthiadau meistr. Mae disgyblion yn 'Hafan' yn dilyn cyrsiau addas i ennill cymwysterau TGAU gwerthfawr neu gymwysterau amgen. Ceir cyfleoedd pellach i'r disgyblion hyn weithio yng ngardd yr ysgol a chymryd rhan mewn sesiynau medrau bywyd. Fodd bynnag, mae ystod y profiadau ar draws y meysydd dysgu yn 'Hafan' wedi'u cyfyngu'n bennaf i lythrennedd a mathemateg.

Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol ac ysgolion cynradd partner, mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir ac yn paratoi'n dda ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ffurfiol ym mis Medi 2023. Wrth gynllunio, mae arweinwyr yn blaenoriaethu datblygiad profiadau dysgu go iawn yn glir i sicrhau cynnydd yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso'u llafaredd a'u hysgrifennu estynedig ar draws llawer o bynciau. Ceir ychydig o gyfleoedd ystyrlon hefyd i ddisgyblion gymhwyso agweddau ar eu medrau rhifedd mewn ychydig o bynciau perthnasol heblaw mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen, rhifedd a digidol disgyblion yn raddol ar draws yr ystodau oedran wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adolygu ac ail-lansio'i rhaglen addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (ABGI) o dan y cwricwlwm lles newydd. Mae hyn, wedi'i ategu gan bynciau eraill ar draws y cwricwlwm, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig

Leiafrifol. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda.

Mae arweinwyr yr ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg, ei diwylliant a’i threftadaeth yn briodol ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu bod yn Gymry yn ystod Eisteddfod yr ysgol a’r ‘Wythnos Gymraeg’. Nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu defnydd ffurfiol ac anffurfiol disgyblion o’r Gymraeg, ac ar gyfer hyrwyddo manteision amlieithrwydd, wedi’i datblygu’n ddigonol.

Mae gweithgareddau ‘Elfed Extra’ yn darparu ystod werthfawr o gyfleoedd i ddisgyblion gynrychioli’r ysgol a datblygu eu medrau ehangach trwy ystod dda o glybiau a digwyddiadau allgyrsiol. Mae’r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion trwy amrywiaeth o ymweliadau addysgol a chyfleoedd i ddysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn teithio i Wlad Yr Iâ, mynd i sgïo i’r Eidal, ymweld ag amgueddfeydd, a mynychu perfformiadau yn y theatr.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Uwchradd Elfed yn gymuned ofalgar a chyfeillgar. Caiff disgyblion eu meithrin mewn amgylchedd lle mae perthnasoedd gweithio rhwng staff a disgyblion yn gryf. Caiff gwerthoedd yr ysgol eu hyrwyddo’n effeithiol ac maent yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae gwobrau disgyblion wedi’u cysylltu’n agos â’r gwerthoedd hyn ac fe gânt eu croesawu’n dda gan ddisgyblion a’u rhieni.

Mae’r cymorth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae gwersi lles ar wahân yn ymdrin ag ystod gynhwysfawr o destunau perthnasol fel byw yn iach, e-ddiogelwch a hawliau dynol. Yn ystod cyfnodau tiwtor dosbarth a gwasanaethau ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae staff yn gweithio’n dda gydag ystod eang o asiantaethau allanol, fel yr heddlu a gwasanaethau iechyd meddwl, i gynorthwyo disgyblion â’u lles personol, cymdeithasol ac emosiynol.

Er mwyn ymateb i safbwyntiau staff, disgyblion a rhieni, mae’r ysgol wedi diwygio cod ymddygiad yr ysgol yn ddiweddar, ac wedi cyflwyno polisi ‘Perthyn’. Mae’r mentrau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion. Mae arweinwyr bugeiliol yn defnyddio data ar ymddygiad a chyflawniad yn dda i olrhain eu gwaith a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn wedi galluogi staff i gydnabod yr angen i gryfhau eu hymagweddau at ddelio â bwlio, ac maent wedi mireinio eu gweithdrefnau yn fuddiol. Caiff presenoldeb ei fonitro’n drylwyr ac mae’r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ymyriadau, sydd wedi cyfrannu at welliant mewn ffigurau presenoldeb. Fodd bynnag, mae presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i beri pryder.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o rai agweddau ar y cynnydd a wna disgyblion unigol ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, at ei gilydd, nid ydynt yn glir am y cynnydd y mae disgyblion ag ADY yn ei wneud yn erbyn eu targedau, ac nid ydynt yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn ddigon agos. Mae staff yn derbyn dysgu proffesiynol rheolaidd i sicrhau eu bod wedi’u harfogi â strategaethau addas ar gyfer cynorthwyo disgyblion â gwahanol anghenion yn eu gwersi.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o ymyriadau defnyddiol i gynorthwyo disgyblion penodol. Mae ‘Dyheadau’ (‘Aspirations’) yn darparu amgylchedd meithringar ar gyfer disgyblion sy’n profi anawsterau cymdeithasol ac emosiynol lle maent yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr fel nofio a garddio. Yn ‘Dyfodol’ (‘Futures’), mae disgyblion sy’n profi gorbryder yn derbyn cymorth sensitif a chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a’u gwybodaeth bwnc. Mae ‘The Rise’ yn ddarpariaeth oddi ar y safle ar gyfer disgyblion bregus, sy’n cynnig cwricwlwm iddynt ar gyfer datblygu eu medrau cymdeithasol ac academaidd.

Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau chwaraeon a diwylliannol, fel y clwb garddio. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dinasyddiaeth trwy gefnogi’r banc bwyd lleol ac elusennau eraill yn y gymuned ehangach. Ceir amrywiaeth o gyfleoedd arwain buddiol gyda grwpiau disgyblion, fel y grŵp LHDTC+, y Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol ac arweinwyr digidol. Mae staff yn gwrando ar safbwyntiau disgyblion, er enghraifft pan gyflwynon nhw ddiwrnodau thema yn ffreutur yr ysgol yn ddiweddar i ddathlu bwyd o wahanol wledydd a diwylliannau.

Mae rhaglen bontio ‘Symudiadau Esmwyth’ (‘Smooth Moves’) yn galluogi disgyblion i ymgynefino’n dda yn yr ysgol ym Mlwyddyn 7. Caiff disgyblion wybodaeth ddefnyddiol wrth wneud dewisiadau ynghylch opsiynau neu benderfyniadau am ddysgu yn y dyfodol, ac amrywiaeth gynhwysfawr o arweiniad ar yrfaoedd, sy’n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn profiad gwaith.

‘Hafan’ yw adnodd yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae’n amgylchedd dysgu diogel, digynnwrf a chefnogol. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg. Maent yn dilyn ystod addas o gymwysterau ac yn datblygu medrau bywyd pwysig, er enghraifft wrth ymweld â chaffis lleol a chynllunio eu teithiau eu hunain gan ddefnyddio amserlenni bysiau.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae pob un o’r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ystod eang o faterion ac yn cael eu hysbysu’n dda am sut i gadw disgyblion yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol ac angerddol ac mae wedi creu ethos o ymddiriedaeth a chydweithio o fewn yr ysgol. Caiff ei gynorthwyo’n dda gan y dirprwy bennaeth a’r uwch dîm. Mewn partneriaeth â staff, disgyblion a rhieni, mae uwch arweinwyr wedi datblygu a rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob myfyriwr yn gadael Ysgol Uwchradd Elfed yn barod i ffynnu yn y gymuned ehangach. Mae’r pennaeth yn modelu gwerthoedd a disgwyliadau arwain yn dda, mae ganddo ddisgwyliadau o bob un o’r staff, ac mae’n eu defnyddio’n briodol i wneud y defnydd gorau o’u medrau.

Mae’r pennaeth wedi diwygio rolau a chyfrifoldebau’r uwch dîm fel eu bod yn gytbwys a theg. Caiff y rolau hyn eu deall yn dda o fewn yr ysgol, ac mae staff yn gwybod ble i fynd i gael cymorth a gofyn am gyngor. Ceir ethos o waith tîm a chydweithio sy’n treiddio trwy’r ysgol, ac mae llawer o uwch arweinwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau’n dda. Mae arweinwyr yn rhoi lles, gan gynnwys lles staff, yn ganolog i bopeth a

wnânt. Caiff eu ffocws cryf ar gynnal lefelau hylaw o faich gwaith ei werthfawrogi gan staff.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth addas o brosesau rheolaeth llinell. Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan uwch arweinwyr, ac yn gweld bod prosesau rheolaeth llinell yn briodol o gefnogol a heriol, ar y cyfan, yn enwedig o ran data. Fodd bynnag, mae'r prosesau hyn yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol a dim digon ar ansawdd yr addysgu na'r effaith a gaiff ar ansawdd yr addysgu na'r effaith a gaiff ar ddysgu a medrau disgyblion. O ganlyniad, nid yw uwch arweinwyr wedi galluogi llawer o arweinwyr canol i gael golwg ddigon cywir ar waith eu hadran. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt nodi'r agweddau penodol ar eu gwaith y maent yn anelu at eu gwella yn ddigon manwl gywir.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau hunanwerthuso priodol. Fodd bynnag, yn rhy aml, maent yn canolbwyntio'n rhy gryf ar ddata crynodol yn hytrach na rhoi ystyriaeth ddigon da i'r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi a thros gyfnod. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ar bob lefel farn sy'n rhy gadarnhaol am yr agweddau pwysig hyn ar waith yr ysgol. Er eu bod yn nodi meysydd addas i'w gwella, at ei gilydd, nid ydynt bob amser yn ddigon manwl gywir am yr agweddau penodol sydd angen eu gwella, na sut byddant yn gwybod a yw eu strategaethau wedi cael effaith ar ddysgu'r disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn angerddol am yr ysgol ac yn glir yn eu bwriad i ddarparu'r addysg orau ar gyfer pob un o'r disgyblion. Maent yn monitro sefyllfa ariannol yr ysgol yn briodol ac yn deall eu rôl yn dda o ran diogelu a hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ychwanegol, maent yn glir ynglŷn â rôl yr ysgol mewn lliniaru yn erbyn effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae llywodraethwyr yn cynnig her fuddiol i'r ysgol ynghylch agweddau ar ei gwaith, er enghraifft gwella ansawdd y bwyd a ddarperir yn ffreutur yr ysgol.

Mae'r cynllunio ariannol yn gadarn. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol o ran y gyllideb a gwariant arfaethedig. Mae'r rheolwr busnes yn gweithio'n ddiwyd i fonitro a chynllunio gwariant.

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i leihau'r rhwystrau rhag dysgu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu o deuluoedd incwm isel. Maent wedi datblygu systemau i nodi rhwystrau unigol disgyblion rhag dysgu ac yn gwneud defnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi'r disgyblion hyn a'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid yw gwerthuso effaith y gwaith hwn wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad, sydd wedi'u cysylltu'n briodol â gweithgareddau dysgu proffesiynol, ac fe gaiff staff gyfleoedd buddiol i drafod yr agweddau ar eu harfer yr hoffent eu gwella. Er bod targedau wedi'u cysylltu'n briodol â'r safonau proffesiynol, maent yn aml yn rhy eang ac nid yw meini prawf llwyddiant yn cysylltu'n ddigon agos â'r targedau a osodwyd.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n gryf i ddysgu proffesiynol, ac mae ganddi raglen gymorth addas ar gyfer pob un o'r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant myfyriol lle mae staff yn fodlon siarad am eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Caiff y rhaglen dysgu proffesiynol ei chefnogi'n dda gan bartneriaid allanol i ddarparu

cyfleoedd buddiol i staff rannu arfer effeithiol. Mae dysgu proffesiynol wedi cael effaith ar ychydig o agweddau pwysig ar waith yr ysgol, er enghraifft ansawdd adborth ysgrifenedig a chyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, nid yw wedi cael digon o effaith ar feysydd pwysig eraill, fel addysgu er dealltwriaeth a lefel yr her ar gyfer disgyblion, mewn lleiafrif o wersi. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw gwerthusiadau arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith addysgu ar ddysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/06/2023